**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-01-02 (p.2)**

**Dyddiad:** **9 Ionawr 2002**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Adolygu Gwasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig**

## 1. Pwrpas

1.1. Gwahoddir y Pwyllgor i

- ystyried y crynodeb o'r ymatebion i'r llythyr ymgynghori (ceir copi o'r llythyr yn Atodiad 1 ac mae'r crynodeb yn Atodiad 2);
- ystyried sut y dylid symud yr adolygiad ymlaen i'r cam nesaf, gan wrando ar dystiolaeth lafar.

## Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn dethol nifer cyfyngedig o faterion allweddol er mwyn canolbwyntio arnynt wrth barhau â'r adolygiad.

## Cefndir

3.1. Ar 22 Hydref 2001, ysgrifennodd Clerc y Pwyllgor at 242 o sefydliadau ac unigolion yr oedd y Pwyllgor yn credu y gallai fod diddordeb ganddynt yn mhwnc yr adolygiad. Roedd y llythyr ymgynghori yn gofyn am farn ar wyth agwedd arbennig ar wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion arbennig.

3.2. Cafodd yr adolygiad ei hysbysebu hefyd yn y cyhoeddiadau hyn:

*Community Care*

*Community Practitioner*

*Nursing Times*

*Western Mail*

*Liverpool Daily Post.*

3.3. Derbyniwyd 46 ymateb erbyn y dyddiad cau ar 19 Rhagfyr 2001. Derbyniwyd 21 arall ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae'r crynodeb yn Atodiad 2 yn rhoi sylw i ymatebion a dderbyniwyd hyd at 21

Rhagfyr.

**4. Yr Ymatebion**

- 4.1 O'r 58 ymateb a grynhowyd, roedd

- 30 ar ran cyrff iechyd statudol, neu gan staff proffesiynol yn gweithio i'r cyrff hynny;
- 11 gan y sector gwirfoddol;
- 9 gan gyrff neu bwyllgorau proffesiynol;
- 4 gan awdurdodau lleol;
- 1 gan riant plentyn ag anghenion iechyd arbennig;
- 3 o ffynonellau eraill.

**5. Y Prif Themâu sy'n dod i'r amlwg**

5.1. Mae nifer o themâu a phryderon allweddol yn deillio o'r ymatebion. Ar y cyfan, mae'r rhain yn faterion cyffredinol ac nid ydynt yn ymwneud â chyflyrau iechyd penodol. Nodir y rhain isod o dan y cwestiynau y maent yn berthnasol iddynt.

***1. Sylwi ar anghenion iechyd arbennig a'u diagnosio'n gynnar.*** *Mewn llawer o achosion, gall diagnosis ac ymyrraeth cynnar gael gwared ar neu leihau problemau, er enghraifft gyda phroblemau'n ymwneud â lleferydd, clyw neu ymddygiad. Gall plant nad ydynt yn gallu manteisio ar ofal sylfaenol (ee o blith grwpiau megis teithwyr, ceiswyr lloches, rhai lleiafrifoedd ethnig, teuluoedd digartef neu ansefydlog) golli'r cyfle i gael eu diagnosio'n gynnar. Beth ddylid ei wneud i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle?*

Themâu Allweddol:

- ni ddaeth unrhyw thema amlwg i'r golwg, er bod llawer wedi cydnabod pa mor bwysig yw sylwi ar anghenion a'u diagnosio'n gynnar;
- dywedodd llawer o'r rhai a ymatebodd bod angen cymryd camau i gyrraedd at a chynnwys teuluoedd mewn grwpiau lleiafrifol nad ydynt, yn aml, yn gallu manteisio ar ofal sylfaenol;
- mae angen cymryd camau i sicrhau bod anghenion iechyd geneuol plant a chanddynt anghenion iechyd arbennig eraill yn cael eu diwallu o oedran cynnar.

***2. Darparu gwybodaeth i rieni/gwarchodwyr.*** *Ar ôl diagnosio, a yw rhieni yn derbyn y wybodaeth y mae arnynt ei hangen ar y prognosis ar gyfer y salwch neu'r anabledd; y driniaeth, gofal ac anghenion arbennig cysylltiedig; y dewisiadau a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael; a'r goblygiadau i aelodau eraill y teulu? Sut y darperir y wybodaeth hon?*

Themâu Allweddol:

- mae angen gwybodaeth glir a chynhwysfawr ar ffurf sy'n addas ar gyfer y derbynnydd - gan gynnwys y plentyn;
- mae angen i'r rheini sy'n rhoi gwybodaeth fod wedi'u hyfforddi'n iawn fel bod y wybodaeth maen nhw'n ei rhoi yn gywir ac yn berthnasol;
- mae rhai sefydliadau, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, yn cael anhawster wrth gyfieithu taflenni.

***3. Cydlynu gofal.*** *A yw'r driniaeth a'r gofal cyffredinol yn cael eu cynllunio a'u cydlynu'n effeithiol rhwng y gwahanol asiantaethau a'r teulu i ddiwallu anghenion y plentyn?*

Themâu Allweddol:

- mae angen gwell cydweithio rhwng yr holl asiantaethau perthnasol;
- gwasanaethau iechyd geneuol – mae angen eu cynnwys, i ddechrau drwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol;
- gall "gweithwyr allweddol" hwyluso cydweithrediad rhwng asiantaethau a chysylltiadau â'r teulu;
- mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y cam o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn fwy llyfn.

***4. Argaeledd gofal a thriniaeth.*** *A yw'r NHS ac asiantaethau eraill yn gallu ymateb i'r galw am driniaeth a gwasanaethau gofal eraill? (Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant mewn ysgolion megis rhoi meddyginiaeth.) Os nad ydynt, pa ddiffygion sydd? Sut y gellir eu goresgyn yn y tymor byr a'r tymor hir?*

Themâu Allweddol:

- dylid rhoi ystyriaeth i fframwaith safonau gyda safonau gofynnol;
- mae prinder gwasanaethau therapi yn enwedig therapyddion lleferydd ac iaith;
- ceir problemau o ran darparu gwasanaethau mewn ysgolion prif ffrwd - nid oes digon o gyfleusterau bob amser ac mae pobl broffesiynol yn colli amser wrth deithio o ysgol i ysgol;
- ceir anawsterau wrth roi meddyginiaethau a thriniaeth "ymosodol" mewn ysgolion prif ffrwd.

***5. Cymorth i deuluoedd a gofalwyr eraill.*** *A yw'r teuluoedd ac eraill sy'n gofalu am blant ag anghenion iechyd arbennig yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt wrth ymdopi â phlentyn ag anghenion iechyd arbennig yn ogystal â diwallu anghenion plant eraill y teulu, ac yn cael digon o ofal seibiant?*

Themâu allweddol:

- ceir prinder a phroblemau eraill o ran gofal seibiant, yn enwedig pan fo'r plentyn ag anghenion cymhleth;
- rhaid diwallu anghenion brodyr a chwiorydd, ee amser adeiladol gyda'u rhieni.

***6. Cyfarpar ac anghenion eraill ym maes gwasanaethau cymdeithasol.*** *A yw plant ag anghenion iechyd arbennig yn cael eu hasesu o fewn cyfnod derbyniol o amser ar gyfer cymhorthion, addasiadau, cyfarpar neu wasanaethau eraill y mae arnynt eu hangen ac a ydynt yn cael y cymhorthion, yr addasiadau, y cyfarpar neu'r gwasanaethau eraill sydd wedi'u nodi yn ddigon cyflym? Bydd y diffiniad o amser derbyniol yn amrywio yn ôl amgylchiadau arbennig y plentyn.*

Themâu Allweddol:

- gall oedi a phroblemau ddeillio o anghydfodau rhwng asiantaethau dros gyllid a chyfrifoldebau;
- byddai cyllidebau a chomisiynu ar y cyd yn helpu i wneud i ffwrdd â rhai o'r problemau hyn;
- mae oedi wrth ddarparu cyfarpar yn golygu bod plant yn tyfu allan ohonynt neu bod eu hanghenion yn newid cyn eu bod yn elwa arnynt;
- gall y broses o wneud cais fod yn rhy fiwrocrataidd;
- gall addasiadau i dai gymryd yn rhy hir a gall cyfraniadau gan berchen-breswylwyr fod yn faen tramgwydd.

***7. Plant ag anghenion addysgol arbennig.*** *A yw'r trefniadau yn effeithiol o ran darparu gwasanaethau iechyd, megis therapi lleferydd, i'r rheini sydd mewn ysgolion prif ffrwd?*

Themâu allweddol:

- fel yn 4 uchod.

***8. Arferion da.*** *Pa drefniadau sydd eu hangen i werthuso gwasanaethau ac i hybu a nodi arferion da?*

Themâu allweddol:

- mae ymatebwyr wedi nodi amrywiaeth o feysydd lle ceir arferion da, o dan y cwestiwn hwn a hefyd wrth ateb cwestiynau eraill;
- dylid pennu safonau er mwyn medru mesur arferion yn eu herbyn;
- derbynnir bod angen nodi a rhannu arferion da.

5.2. Er mai'r uchod yw'r themâu allweddol, bydd yn bwysig i aelodau astudio'r ymatebion eu hunain er mwyn deall cefndir y sylwadau ac er mwyn dewis y pwyntiau pwysig a wnaed mewn perthynas â'r materion hyn a materion eraill.

## 6. Y Ffordd Ymlaen

6.1. Mae rhaglen y Pwyllgor yn caniatáu i'r pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar mewn tri sesiwn yn ystod Chwefror, un yn Adeilad y Cynulliad, un yn Aberhonddu ac un yn Rhyl. Ar y cyd â hyn, cynhelir yr adolygiad llenyddiaeth. Bydd y Pwyllgor wedyn yn trafod y dystiolaeth ac yn dod i gasgliad ym misoedd Ebrill/Mai, gyda'r adroddiad yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno ym mis Mehefin.

6.2. O fewn yr amser hwn, byddai'n anodd i'r Pwyllgor ystyried yn drylwyr y materion a godwyd mewn ymateb i'r broses ymgynghori, neu i fynd i'r afael â hwy i gyd. Argymhellir, felly, ei fod yn dewis y materion mwyaf allweddol ac yn mynd i'r afael â hwy ar lefel strategol uchel.

6.3. Mae'r bosibl hefyd y bydd y Pwyllgor yn dymuno cofio bod modd datrys rhai o'r materion yn weddol gyflym ac yn weddol rhad. Gall eraill gymryd mwy o amser, a byddant yn fwy costus. Efallai y gall y Pwyllgor ddod i gasgliadau pendant a gwneud argymhellion ar rai materion, ond ar y materion mwy cymhleth gallai'r Pwyllgor argymell bod mwy o waith yn cael ei wneud a bod y Pwyllgor yn monitro datblygiadau.

6.4. Pa gyfarfu ym mis Hydref, cytunodd y Pwyllgor na ddylai ei waith ddyblygu gwaith sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill. Ceir rhestr o'r gwaith cyfredol perthnasol yn Atodiad 3.

6.5. Ar ôl penderfynu ar y materion allweddol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno dewis yr unigolion a'r sefydliadau yr hoffent eu gwahodd i roi tystiolaeth lafar. Nid yw pob un o'r rhai a ymatebodd wedi dweud a fyddent yn fodlon rhoi tystioaeth, ond nid oes unrhyw un wedi dweud na fyddent. Bydd yn bwysig estyn gwahoddiad o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

4 Ionawr 2002